

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Prifysgol Caerdydd a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2023 am 13.00 yn Ystafell y Bwrdd a Man Digwyddiadau Adeilad sbarc I spark, Heol Maendy, Caerdydd.

Yn Bresennol: Patrick Younge (Cadeirydd), Is-Ganghellor, Angie Flores Acuña, yr Athro Rudolf Allemann, Yr Athro Rachel Ashworth, Paul Baston, Yr Athro Marc Buehner, Judith Fabian, Yr Athro Fonesig Janet Finch, Christopher Jones, Jan Juillerat, Jeremy Lewis, Deio Owen, Dr Joanna Newman, Suzanne Rankin [Cofnodion 2143-2157], David Selway, Dr Pretty Sagoo, Yr Athro Damian Walford Davies, Jennifer Wood.

Hefyd yn Bresennol: Katy Dale [Yn cymryd y cofnodion], Millicent Ele, Rashi Jain, Yr Athro Urfan Khaliq [o gofnod 2143], yr Athro Wendy Larnar, Jon Lockley [Cofnod 2154], Siân Marshall, Susan Midha, Claire Morgan, Claire Sanders, Darren Xiberras, yr Athro Ian Weeks, a'r Athro Roger Whitaker.

2137 Croeso a materion rhagarweiniol

Croesawyd pawb i'r cyfarfod, yn enwedig Llywydd Undeb y Myfyrwyr yn eu rôl newydd, yr Is-lywydd Cymraeg, Cymuned a Diwylliant a oedd yn dod i'w cyfarfod cyntaf, a'r Is-Ganghellor Dynodedig a oedd yn bresennol fel arsylwr.

2138 Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Michael Hampson, John Shakeshaft ac Agnes Xavier-Phillips. Cadarnhawyd bod digon yn y cyfarfod i greu cworwm

2139 Datgan buddiannau

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau o'u dyletswydd i ddatgelu unrhyw fuddiannau a allai wrthdaro. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2140 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ebrill 2023 (22/775) yn gofnod gwir a chywir, ac fe'u cymeradwywyd i gael eu llofnodi gan y Cadeirydd.

2141 Materion a godir

Derbyniwyd a nodwyd papur 22/794C, 'Materion yn Codi'. Siaradodd y Cadeirydd am yr eitem hon.

2142 Eitemau gan y Cadeirydd

Derbyniwyd papur 22/777C, 'Adroddiad o Gam Gweithredu'r Cadeirydd ers y Cyfarfod Diwethaf'. Siaradodd y Cadeirydd am yr eitem hon.

Nodwyd

2142.1 bod y Cadeirydd wedi cymeradwyo nifer o benodiadau i Bwyllgorau, gan gynnwys penodi Dr Catrin Wood a Dr Juan Pereiro Viterbo i'r Cyngor;

2142.2 bod Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg wedi ymddiswyddo fel Cadeirydd ac fel aelod lleyg o'r Cyngor ar unwaith; [Hepgorwyd].

2143 Adroddiad Yr Is-ganghellor i'r Cyngor

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 22/791C, 'Adroddiad yr Is-ganghellor i'r Cyngor'. Siaradodd yr Is-ganghellor am yr eitem hon.

Nodwyd

2143.1 bod yr adroddiad yn cynnwys newyddion cadarnhaol am niferoedd myfyrwyr a chanlyniadau myfyrwyr;

2143.2 bod y cyfnod ar gyfer y Rhag Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr wedi'i fanylu'n anghywir yn y papur; byddai eu cyfnod presennol yn dod i ben ym mis Hydref 2023 a'u cyfnod nesaf yn rhedeg rhwng Tachwedd 2023 a Hydref 2026;

Boicot Marcio ac Asesu

2143.3 bod diweddariad wedi cael ei ddarparu, ac i drafodaeth gael ei chynnal, mewn perthynas â'r Boicot Marcio ac Asesu;

2143.4 Er bod y boicot wedi bod yn hysbys ymlaen llaw, roedd yn dal yn aneglur pwy fyddai'n cymryd rhan yn y boicot ac felly maint yr effaith nes bod marcio wedi cychwyn, gan nad oedd yn rhaid i'r aelodau nodi eu cyfranogiad ymlaen llaw; effeithiodd hyn ar y gallu i roi mesurau lliniaru ar waith;

2143.5 bod y Brifysgol wedi dilyn canllawiau UCEA ar y mater hwn o ran atal tâl i'r rhai sy'n ymwneud â'r boicot oherwydd nad ydynt yn gweithio i gontractio; er bod hawl ganddo i atal y 100% llawn o gyflog, roedd y Brifysgol wedi dal cyflog yn ôl ac yna wedi gwneud taliad *ex gratia* o 50%; roedd cangen leol UCU wedi ystyried hyn yn gosbol ac yn ymgymryd â gweithredu pellach ar streic (a welwyd mewn sefydliadau eraill er nid ar draws y sector); roedd y Brifysgol wedi gofyn a ellid lleihau effaith y MAB ac yn ddealladwy nad oedd UCU wedi gallu bodloni'r cais hwn; parhaodd y Brifysgol felly i atal cyflog; parhaodd y Brifysgol i gael sgysiau cwrtais gydag UCU ac roedd y ddau mewn sefyllfa gyfyngedig;

2143.6 [Hepgorwyd]

2143.7 [Hepgorwyd]

2143.8 [Hepgorwyd]

2143.9 [Hepgorwyd]

2143.10 bod ystod o fesurau wedi'u rhoi ar waith i helpu myfyrwyr gan gynnwys:

- .1 sefydlu desg gymorth; roedd staff ar draws y sefydliad oedd yn gyfrifol am hwn ac roedd yn cynnwys y rhai â phrofiad o ysgolion o rolau blaenorol; byddai unigolion sy'n cymryd galwadau yn gweithio gydag ysgolion i ddeall safbwynt pob myfyriwr;
- .2 creu Cwestiynau Cyffredin;
- .3 llythyr i'w gynnwys gyda thrawsgrifiadau myfyrwyr i'w helpu i ddeall eu canlyniadau ac unrhyw effeithiau;

- .4 roedd y gwasanaeth cefnogaeth iechyd meddwl i fyfyrwyr a'r Brifysgol wedi estyn allan i fyfyrwyr bregus;
- .5 cyfathrebu ar y cyfryngau cymdeithasol i helpu myfyrwyr i ddeall y sefyllfa;

2143.11 [Hepgorwyd]

2143.12 [Hepgorwyd]

2143.13 [Hepgorwyd]

2143.14 [Hepgorwyd]

2143.15 [Hepgorwyd]

2143.16 bod Undeb y Myfyrwyr yn gwerthfawrogi bod hon yn sefyllfa anodd ac yn anghydfod cenedlaethol gan nodi bod angen chwilio am ddatrysiad i bawb er mwyn cyfyngu ar yr effaith a'r gofid i fyfyrwyr.

2144 Cofrestr Risgiau

Cyflwynwyd ac ystyriwyd papur 22/715HC, 'Cofrestr Risgiau'. Siaradodd yr Is-ganghellor am yr eitem hon.

Nodwyd

2144.1 [Hepgorwyd]

2144.2 [Hepgorwyd]

2144.3 [Hepgorwyd]

Penderfynwyd

2144.4 cymeradwyo'r gofrestr risgiau.

2145 Llythyr Adolygu Risgiau Sefydliadol

Derbyn ac ystyried papur 22/797C, 'Ymateb i lythyr Adolygiad Risg Sefydliadol Terfynol CCAUC.' Siaradodd Ysgrifennydd y Brifysgol am yr eitem hon.

Nodwyd

2145.1 [Hepgorwyd]

2145.2 [Hepgorwyd]

2145.3 [Hepgorwyd]

2145.4 [Hepgorwyd]

Penderfynwyd

2145.5 cymeradwyo'r ymateb, yn amodol ar sylwadau a godwyd yn 2145.3 a 2145.4;

2145.6 rhoi manylion am nifer y sefydliadau a nodwyd ym mhob un o'r categorïau risg.

2146 Adroddiad Diweddarau KPI 22-23

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 22/738C, 'Adroddiad Diweddarau KPI 22-23.' Siaradodd yr Is-ganghellor am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2146.1 bod nifer y saethau gwyrdd yn plesio; nodwyd bod rhai saethau coch yn twyllo (e.e. KPI 6C oedd wedi methu'r targed 0.01%);
- 2146.2 nad oedd system ar hyn o bryd i ddarparu'r ffigurau ar gyfer y KPI o ran myfyrwyr ar leoliadau gwaith (roedd yn rhaid cyfrifo'r rhain â llaw), felly pam na ddarparwyd unrhyw ffigurau;
- 2146.3 y byddai canlyniadau lefel uchel ar gyfer yr arolwg staff ar gael yn ystod yr wythnosau nesaf; byddai'r canlyniadau'n cael eu rhannu gyda'r Cyngor.

2147 Adroddiad Cyllid

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 22/743C, 'Adroddiad Cyllid'. Siaradodd y Prif Swyddog Ariannol am yr eitem hon.

- 2147.1 [Hepgorwyd]
- 2147.2 [Hepgorwyd]
- 2147.3 [Hepgorwyd]
- 2147.4 [Hepgorwyd]
- 2147.5 nad oedd rhagolwg Ch3 yn cynnwys unrhyw risg o weithredu diwydiannol ac efallai y bydd angen ystyried hyn; amcangyfrif y ffigurau cyfredol o ran atal cyflog oherwydd streiciau oedd [Hepgorwyd y Ffigur] a byddent yn cael eu cynnwys fel eitem ar y fantolen;
- 2147.6 bod disgwyl addasiad cadarnhaol a sylweddol i'r gronfa bensiwn yng nghyfrifon diwedd y flwyddyn; roedd hyn ar gyfer CUPF gan fod trefniadau cyfrifyddu cynllun USS yn wahanol;
- 2147.7 i longyfarchiadau gael eu hestyn i bawb a oedd wedi gweithio yn galed i gyrraedd y sefyllfa ariannol bresennol.

Penderfynwyd

- 2147.8 y bydd iteriadau yn y dyfodol yn cynnwys cyfeiriad at y targed KPI ar EBITDA.

2148 Cyllideb Arfaethedig ar gyfer 2023-24, Rhagamcanion Ariannol ar gyfer 2024-25, 2025-26 a 2026-27

Derbyn ac ystyried papur 22/818C 'Cyllideb Arfaethedig ar gyfer 2023-24, Rhagamcanion Ariannol ar gyfer 2024-25, 2025-26 a 2026-27' a phapur 22/742HC 'Canlyniadau Proses Cynllunio Integredig'. Siaradodd y Prif Swyddog Ariannol am yr eitem hon.

Nodwyd

Cyllideb Arfaethedig 2023-24

- 2148.1 [Hepgorwyd]

- 2148.2 roedd y ffigurau hyn yn ddibynnol ar niferoedd terfynol y myfyrwyr;
- 2148.3 [Hepgorwyd]
- 2148.4 y cynhaliwyd trafodaeth ar gyflwr yr ystâd a'r ôl-groniad cynnal a chadw; roedd arolwg cyflwr o'r ystâd ar y gweill (yn adrodd ym mlwyddyn academiaidd 2023/24) a disgwyliid y byddai hyn yn arwain at ôl-groniad cynnal a chadw a oedd yn uwch na'r hyn a ragwelwyd ar hyn o bryd; Yna byddai gwaith yn cael ei wneud i bennu strategaeth ystadau a sicrhau cyd-fynd â gwaith carbon sero-net, ochr yn ochr ag integreiddio'r gwaith hwn i'r IPP; nodwyd bod timau wedi' cael eu sefydlu o fewn swyddogaeth yr Ystadau i ganolbwyntio ar ofod a charbon sero-net; amlygwyd hefyd yr angen am raglen cynnal a chadw ddigidol; nodwyd y byddai cynhyrchu cyfalaf yn caniatáu i waith o'r fath gael ei wneud, ond byddai hefyd yn cael gwared ar wargedion a gynhyrchir; amlygwyd yr angen am gynllun cyllid integredig, a oedd yn sicrhau cynaliadwyedd ac yn cytuno ar lefel y cronfeydd wrth gefn a sut y gellid defnyddio'r rhain;
- 2148.5 polisi presennol y llywodraeth ynghylch cyfyngu ar niferoedd myfyrwyr rhyngwladol; nodwyd bod hyn yn fwy o fater o bolisi gan Lywodraeth Lloegr ac nad oedd y Brifysgol mor agored â sefydliadau eraill (er bod amlygiad i'r risg hon);
- 2148.6 [Hepgorwyd]
- 2148.7 y cytunwyd i beidio â chynyddu FTE myfyrwyr ond i ddiwygio cyfrannau ac ansawdd y nifer sy'n derbyn myfyrwyr;
- IPP
- 2148.8 y byddai hyn yn darparu offeryn canolog a chyfannol ar gyfer cynllunio academiaidd ac ariannol, gan gynnwys yr ystâd, ac yn helpu i ddiogelu darpariaeth cynlluniau ariannol;
- 2148.9 bod angen i Benaethiaid Ysgol a deiliaid cyllideb ymrwymo; cynhaliwyd sesiwn gyda Phenaethiaid yr Ysgol i drafod y cynigion ac roedd awydd ganddynt am y gwaith hwn;
- 2148.10 cynlluniwyd cynnal digwyddiad diwrnod lansio ar gyfer blwyddyn academiaidd 2023/24;
- 2148.11 wrth symud ymlaen, byddai UEB yn cymryd cyfrifoldeb am yr IPP (yn hytrach na'r grŵp rheoli IPP) i sicrhau mwy o aliniad;
- 2148.12 y byddai cadarnhau a chlirio yn targedu ysgolion a allai ymdopi a derbyn mwy o fyfyrwyr ac a oedd â chynlluniau ar gyfer twf, yn ogystal â phynciau lle gallai'r farchnad gynyddu nifer y myfyrwyr;
- 2148.13 ei bod yn bwysig ystyried y gofynion staffio ar gyfer prosiectau newid.
- Penderfynwyd
- 2148.14 cymeradwyo cyllideb arfaethedig 2023/24.

2149 Adroddiad gan Lywydd Undeb y Myfyrwyr

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 22/789 'Adroddiad gan Lywydd Undeb y Myfyrwyr'. Siaradodd Llywydd Undeb y Myfyrwyr am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2149.1 bod y digwyddiadau Varsity diweddar wedi mynd yn dda;
- 2149.2 bod swyddogion sabothol wedi cael mandad i beidio â dod i'r seremoni graddio a theimlwyd gan rai i fod yn croesi llinell biced; Mae'n debygol y byddai swyddogion sabothol yn dal i ddod;
- 2149.3 nad oedd presenoldeb yr heddlu mewn digwyddiadau Diwrnod Agored diweddar wedi achosi gofid;
- 2149.4 bod myfyrwyr wedi gofyn bod swyddogion sabothol yn gweithio er mwyn dod â'r MAB i ben a byddai llythyr yn cael ei gyhoeddi i'r Brifysgol yn fuan.

2150 Barn y Myfyrwyr

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 22/677, 'Barn y Myfyriwr 2023'. Siaradodd Llywydd Undeb y Myfyrwyr am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2150.1 bod Barn y Myfyriwr yn cynnwys tri phrif thema: Tai, Ystadau a Chyfleusterau, ac Asesu ac Adborth;
- 2150.2 y byddai datblygu Strategaeth Preswylfeydd yn dilyn canlyniadau'r arolwg cyflwr; ni fyddai'r gyllideb adnewyddu flynyddol ar gyfer preswylfeydd yn cael ei thorri lle bo hynny'n bosibl a byddai'n parhau tra bod strategaeth yn cael ei datblygu; roedd y cytundeb gydag Unite hefyd wedi cael ei ymestyn i sicrhau llety i fyfyrwyr; ni fu unrhyw streiciau rhent hyd yma gan y credwyd bod lefelau'n rhesymol; nodwyd bod y mwyafrif o alwadau y tu allan i oriau am Ddiogelwch oherwydd mater preswylfeydd ac roedd galwadau oherwydd cloi allan wedi cynyddu'n fawr erbyn hyn nid oedd tâl am hyn.

2151 Diweddariad Profiad Myfyrwyr

Derbyn ac ystyried papur 22/841R, 'Diweddariad ar Adborth Myfyrwyr Addysg a Phrofiad Myfyrwyr y Rhag Is-Ganghellor'. Siaradodd Rhag Is-ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2151.1 bod dau arolwg myfyrwyr ôl-raddedig, CUPTS ar gyfer myfyrwyr a addysgir (arolwg mewnol) a PRES ar gyfer myfyrwyr ymchwil (a redir yn genedlaethol gan AdvanceHE); roedd cyfraddau ymateb isel ar gyfer y ddau arolwg; roedd y canlyniadau'n uwch na'r meincnod ac roeddent yn cael eu hadolygu gan PG Deans;
- 2151.2 y cadarnhawyd y byddai canlyniadau'r ACF yn cael eu cyhoeddi ar 10 Awst 2023; bu newidiadau i'r cwestiynau a sut y cafodd ymatebion eu llunio ac nid oedd yn glir sut y byddai'r data'n cael ei gyflwyno; disgwylid efallai na fydd symudiad cadarnhaol o ran Ysgolion y Gyfraith a Gwleidyddiaeth a'r Gwyddorau Cymdeithasol yn yr arolwg hwn; roedd disgwyl hefyd y byddai canlyniadau arolwg 2024 yn adlewyrchu effaith y MAB;
- 2151.3 bod canlyniadau gwaith ymgynghori'r ACF wedi nodi nad oedd profiad myfyrwyr yn gweithio mor effeithiol mewn ysgolion mwy; roedd gwahaniaethau rhwng profiadau wedi dod yn fwy gweladwy, gan gynyddu'r angen am gysondeb;

- 2151.4 bod cynnydd da wedi'i wneud ar y cynllun cymrodoriaeth gyswllt ac roedd myfyrwyr PG wedi derbyn hyn yn dda;
- 2151.5 bod Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu i adolygu'r materion sy'n ymwneud â marcio ac wedi ymgysylltu ag ymgynghorwyr; Roedd y gwaith yn mynd rhagddo'n gyflym yn y maes hwn ond roedd meysydd o bwysigrwydd cystadleuol ac felly roedd angen monitro hyn.

2152 Adolygiad o'r berthynas dwy siambr rhwng y Cyngor a'r Senedd

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 22/795, 'Adolygiad o'r berthynas dwy siambr rhwng y Cyngor a'r Senedd'. Siaradodd y Dirprwy Is-ganghellor am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2152.1 bod yr adolygiad hwn yn adolygiad a gomisiynwyd gan y Cyngor yn dilyn argymhellion Adolygiad Effeithiolrwydd Llywodraethu 2021;
- 2152.2 y byddai'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cwmpasu'r adolygiad ond heb gynnal yr adolygiad ei hun; Cynigiwyd adolygwyr allanol a chynhaliwyd cyfarfodydd anffurfiol; byddai cyfarfodydd ffurfiol yn cael eu cynnal ar 25 Gorffennaf a'r adolygydd terfynol yn cael eu dewis;
- 2152.3 bod y llinell amser bresennol yn dangos y byddai'r adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno ym mis Mai 2024;
- 2152.4 bod cynigion wedi'u rhannu â'r Senedd a oedd wedi gofyn am ychwanegu mân ffurfdro i bwynt 5 y cwmpas;
- 2152.5 bod Cyfarwyddwr rhaglenni Iaith Saesneg wedi cael eu nodi fel ymgynghorai gan eu bod yn aelod *ex-officio* o'r Senedd a bod pob categori o aelodaeth o'r Senedd yn cael eu cynnwys fel ymgynghoreion; roedd y Dirprwy Is-Ganghellor yn fodlon bod staff Cymraeg eu hiaith yn cael eu cynrychioli.

Penderfynwyd

- 2152.6 cymeradwyo'r amserlen, yr adolygwyr ac ymgynghoreion a gynigiwyd yn y papur.

2153 Adroddiad Perfformiad Ystadau Blynyddol

Derbyn ac ystyried papur 22/746C, 'Adroddiad Perfformiad Ystadau Blynyddol.' Siaradodd y Dirprwy Is-ganghellor am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2153.1 ei fod yn argymhelliad gan God Rheoli Ariannol CCAUC ac adroddiad IAR bod y corff llywodraethu yn derbyn adroddiad blynyddol yn amlinellu perfformiad ystadau;
- 2153.2 bod y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau hefyd wedi gweld yr adroddiad;
- 2153.3 bod yr adroddiad yn rhoi cipolwg ar sefyllfa'r ystâd ac yn rhoi manylion am flaenoriaethau'r dyfodol (e.e. lleihau ôl troed carbon, gwell defnydd a gwaredu o'r ystâd etifeddiaeth lle bo angen);
- 2153.4 bod yr adroddiad yn nodi cyfraddau defnydd gwael ar ofod; byddai adolygiad cyfannol o'r ystâd a phrofiad myfyrwyr a staff ynddi yn cael ei gynnal; efallai y

bydd angen newid diwylliannol o ran defnydd o'r gofod a'r angen i bwysleisio costau gofod i ysgolion;

- 2153.5 bod Rheolwr Rhaglen Sero Net wedi'i benodi ac roedd y Brifysgol yn defnyddio nifer o fenthyciadau yn y maes hwn; byddai strategaeth o ran gwrthbwysu carbon yn allweddol;
- 2153.6 y byddai materion sy'n ymwneud â phrofi larymau tân a drysau tân sy'n cael eu cynnal ar agor yn cael eu cludo yn ôl i'r tîm Ystadau;
- 2153.7 bod cynhyrchu ynni gwyrdd yn cael ei ystyried fel rhan o unrhyw brosiect newydd; roedd y posibilrwydd o ffynhonnell wres yn ardal Cathays a'r defnydd o ynni o'r môr yn cael ei ystyried;
- 2153.8 bod y newidiadau o fewn y tîm ystadau fel petaent wedi sefydlogi;
- 2153.9 y rhagwelwyd y byddai newid sylweddol yn ardaloedd yr ystâd a nodwyd fel amod A a B yn dilyn canlyniadau'r arolwg cyflwr;
- 2153.10 y gallai fod cyfleoedd i weithio gyda sefydliadau eraill gan ddefnyddio ymagwedd ystâd gyhoeddus ar y cyd.

Penderfynwyd

- 2153.11 i gymeradwyo'r Adroddiad Perfformiad Ystadau Blynyddol.

2154 Rhaglen Cyfrifiadura Perfformiad Uchel a Rhaglen Ailwampio Canolfan Ddata Redwood

Derbyn ac ystyried papur 22/740HCR, 'HPC ac Achos Busnes Redwood.'
Siaradodd y Prif Swyddog Gweithredu am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2154.1 [Hepgorwyd]
- 2154.2 [Hepgorwyd]
- 2154.3 [Hepgorwyd]
- 2154.4 [Hepgorwyd]
- 2154.5 [Hepgorwyd]
- 2154.6 [Hepgorwyd]

Penderfynwyd

- 2154.7 Cymeradwyo Rhaglen Cyfrifiadura Perfformiad Uchel a Rhaglen Adnewyddu Canolfan Ddata Redwood, sef:

- .1 creu Rhaglen Adnewyddu Cyfrifiadura Perfformiad Uchel a Chanolfan Ddata Redwood;
- .2 cymeradwyo buddsoddiad cyfalaf HPC a'r Ganolfan Ddata o £4.941miliwn (sy'n cwmpasu 2023/24 a 2024/25);

- .3 cymeradwyo'r Gwaith Ystadau ychwanegol, gyda buddsoddiad cyfalaf o £576mil yn cynnwys TAW a 25% wrth gefn yn ystod 2023/2024.

Gadawodd Jon Lockley (Cyfarwyddwr ARCA) y cyfarfod.

2155 Achos Busnes Cam 1 Lleihau Carbon

Wedi derbyn ac ystyried papur 22/696, 'Achos Busnes Cam 1 Lleihau Carbon'. Siaradodd y Prif Swyddog Ariannol am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2155.1 bod y papur wedi gofyn am gymeradwyaeth o hyd at £14.1miliwn o gyllid; byddai hyn yn dod o fenthyciad di-log o £10.5miliwn gan Lywodraeth Cymru a hyd at £3.6miliwn o gronfeydd wrth gefn y Brifysgol (a oedd yn cynnwys £1.8miliwn o risg); roedd benthyciad pellach o £1.4miliwn yn cael ei ymchwilio;

- 2155.2 byddai gwaith ar gyfer hyn yn rhedeg o fis Awst 2023 i fis Awst 2026 a byddai'n cyfateb i arbedion ariannol o £1.26miliwn ac arbedion carbon o 1487 CO₂ (y ddau bob blwyddyn);

- 2155.3 y byddai paneli solar o'r safon ofynnol a bennwyd o fewn y meini prawf ar gyfer y benthyciad.

Penderfynwyd

- 2155.4 i gymeradwyo Achos Busnes Cam 1 Lleihau Carbon sef:

- .1 cymeradwyo cyflwyno cais am fenthyciad Rhaglen Cyllid Cymru gyda gwerth amcangyfrifedig o £11.9miliwn ar hyn o bryd;
- .2 cymeradwyo bod y Brifysgol yn ymrwymo cyllid o hyd at £3.6miliwn i gyflawni'r prosiect hwn;
- .3 cymeradwyo dirprwyo i'r Dirprwy Is-Ganghellor a'r Prif Swyddog Ariannol i lofnodi'r contract gwaith ar gyfer Breathe i fwrw ymlaen â'r gwaith, ar yr amod bod y cais am fenthyciad yn llwyddiannus ac ymrwymiad y Brifysgol ddim yn fwy na £3.6miliwn.

2156 Adroddiad gan y Pwyllgor Dileu Swyddi

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 22/788RC, 'Adroddiad gan y Pwyllgor Dileu Swyddi Gorffennaf 2023'. Siaradodd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2156.1 bod y papur yn gofyn am gymeradwyaeth dirprwyaethau o'r Cyngor fel yr oedd yn arferol yn y cyfarfod hwn.

Penderfynwyd

- 2156.2 [Hepgorwyd]

- 2156.3 [Hepgorwyd]

- 2156.4 sefydlu Pwyllgorau Dileu Swyddi i ystyried terfyniadau o'r fath;

2156.5 dirprwyo i Gadeirydd neu i Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor yr awdurdod o dan baragraff 11(2) o Ran I o Statud XV, naill ai i gymeradwyo unrhyw argymhelliad dethol a wneir gan y Pwyllgor Dileu Swyddi o dan is-adran (1), neu ei gyfeirio at y Pwyllgor Dileu Swyddi i'w ystyried ymhellach yn unol â'u cyfarwyddiadau pellach; adroddiad ar benderfyniadau o'r fath i'w wneud i gyfarfod arferol nesaf y Cyngor (2.1);

2156.6 dirprwyo awdurdod o dan baragraff 12(1) o Ran I o Statud XV i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol i gyhoeddi hysbysiadau diswyddo yn dilyn penderfyniad a gymerwyd ar ran y Cyngor gan Gadeirydd neu Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor (2.2).

2157 Cyflwyniad y Rhag Is-ganghellor, Coleg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianeg

Cyflwynodd y Rhag Is-ganghellor, Coleg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianeg yr eitem hon.

Nodwyd

2157.1 bod y 7 ysgol yn y Coleg nid yn unig yn bwysig ar gyfer addysg ond hefyd yn feysydd ar gyfer anghenion cymdeithasol a chynaliadwy'r gymuned yn y dyfodol, yn lleol ac yn fyd-eang;

2157.2 mai hwn oedd y coleg lleiaf gyda 660 o staff academiaidd, 325 o staff PS a 6448 o fyfyrwyr FTE; roedd 25% o fyfyrwyr a 37% o'r staff yn rhyngwladol; roedd 95% o fyfyrwyr mewn cyflogaeth neu'n astudio ymhellach;

2157.3 bod y Coleg wedi cynhyrchu £39miliwn o ddyfarniadau ymchwil yn 2021/22; roedd ei gyfraniad blynyddol wedi cynyddu o £22.8miliwn yn 2015/16 i £44.2miliwn yn 2021/22;

2157.4 bod nifer o brosiectau allweddol wedi'u cynnal i gynorthwyo gyda thyfu ysgolion a'r Coleg (e.e. gwaith ar Adeilad Bute, adeiladu Abacws);

2157.5 bod y Coleg wedi perfformio'n dda yn REF 2021, gyda'r holl gyflwyniadau wedi'u sgorio >95% 4* neu 3* ac roedd pob ysgol wedi cynyddu ei GPA;

2157.6 bod y Coleg wedi adnewyddu ei Strategaeth a'i nod oedd cynyddu cyfraddau cyfraniadau blynyddol o 34.8% rhwng 2023/24 a 2025/26;

2157.7 bod y risgiau allanol allweddol yn cynnwys model cyllido AU, dibyniaeth ar Tsieina, gweithredu diwydiannol a newidiadau yn y llywodraeth a pholisi (e.e. Horizon); y risgiau mewnol allweddol oedd boddhad myfyrwyr, costau uwch, recriwtio a chadw staff, a defnyddio gofod;

2157.8 bod recriwtio myfyrwyr yn peri risg ac yn rhoi cyfleoedd; roedd cyfleoedd arbennig yn yr Ysgol Peirianeg a'r Ysgol Cyfrifiadureg a Gwybodeg; roedd meddwl hefyd yn cael ei roi i dwf ar gyfer yr Ysgolion Cemeg a Mathemateg; nodwyd y gallai fod cyfleoedd i groesi gyda'r Ysgol Busnes a'r angen i sicrhau arbenigedd digidol;

2157.9 bod y genhadaeth ddinesig honno'n parhau'n elfen graidd o waith y Coleg.

2158 Unrhyw Fater Arall

Nodwyd

2158.1 i ddiolchiadau gael eu hestyn i'r canlynol oedd wedi dod i'w cyfarfod olaf:

- Is-Ganghellor
- Yr Athro Rudolf Allemann
- Yr Athro Rachel Ashworth
- Yr Athro Marc Buehner
- Dr Joanna Newman
- Paul Baston

2159 Eitemau a Dderbyniwyd i'w Cymeradwyo

Penderfynwyd

- 2159.1 cymeradwyo'r papurau canlynol:
 22/616 Newidiadau i Ordinhadau
 22/793C Aelodaeth Lleyg y Cyngor
 22/617C Polisi Buddion Ymddiriedolwyr
 22/606R Rhaglen Datblygu a Chynefino Cyngor 2023-24
 22/615 Diweddariadau i Gynllun Dirprwyo Mai 2023
 22/745C Adolygiad Blynyddol Cytundeb Ariannol Undeb y Myfyrwyr 2022-23

2160 Eitemau a Dderbyniwyd er Gwybodaeth

NODWYD y papurau canlynol:

- 22/796C Adroddiad Senedd i'r Cyngor Mehefin 2023
 22/685 Teitlau Emeritws ac Emerita a Ddyfarnwyd ers 1 Ebrill 2023
 22/819C Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg
 22/820C Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau i'r Cyngor
 22/744C Diweddariad ar Gynlluniau Pensiwn y Brifysgol
 22/739C Diweddariadau ar Gynlluniau Buddsoddi – Cynllun Buddsoddi Cyfalaf
 2018-23 a Chynllun Buddsoddi Tymor Byr 2021-23
 22/748C Dangosfwrdd Adnoddau Dynol
 22/786C Adroddiad Blynyddol ar Gyd-fentrau
 22/792C Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu
 22/788C Adroddiad gan y Pwyllgor Dileu Swyddi
 22/776C Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Telerau
 22/684C Adroddiad gan y Pwyllgor Cymrodoriaethau a Graddau er Anrhydedd
 22/779 Amserlen o Fusnes ar gyfer Blwyddyn 2023-24
 22/790 Cynllun Gweithredol Bwrdd Gweithredol y Brifysgol 2022-23
 22/778 Selio Trafodion
 22/731HC Diweddariad Digwyddiadau Mawr a Difrifol (*ar Ddesg y Cyfarwyddwr*)